Yr Helfa Coed Hynafol

Celf a Dylunio CA3

Dylunio
COED HYNAFOL

UNED 4: TAFLEN ATHRAWON

(amser a awgrymir: 1-6 awr)

Dylunio a Choed Hynafol – cyflwyniad a throsolwg

Gan ddefnyddio llawer o'r sgiliau y mae eich disgyblion wedi'u dysgu mewn gwersi blaenorol, dyluniwch gyfres o bosteri, erthyglau i gylchgronau a chloriau blaen. Gofynnwch iddynt gynhyrchu fideo byr, ac yn olaf, tudalen i wefan am goeden hynafol yn eu hardal.

Bydd yn rhaid defnyddio cyfrifiaduron i wneud peth o'r gwaith yma, a ffotograffiaeth a fideo hefyd yn ogystal â pheth celfyddyd gain ar bapur a chynfas.

Yn yr uned hon, bydd yn rhaid i'r disgyblion wybod sut i ddefnyddio teip mewn ffordd reoledig i wneud teitlau a chynnwys. Astudiwch ystod o ffurfdeipiau serif a sans serif a defnyddiwch raglen prosesu geiriau neu ddylunio addas i wneud hyn.

Gall y disgyblion ddefnyddio ffotograffiaeth neu luniadu i greu darluniadau. Gallent edrych ar gylchgrawn masnachol neu astudio dulliau gwahanol o greu gosodiadau a dyluniad.

Dylai disgyblion edrych ar wefan Coed Cadw i weld gwahanol erthyglau a gosodiad gwefan, yna gwneud tudalen gwefan eu hunain gyda storïau a dolenni fel ymarfer grŵp.

Mae angen gwaith tîm drwy'r holl wersi hyn.

Bydd y prosiect hwn yn tybio eich bod wedi gallu astudio gwefan Yr Helfa Coed Hynafol gyda'ch disgyblion fel rhan o'r cyflwyniad.

Adnoddau cyffredinol:

Ffyn mesur

Pensiliau o galedwch gwahanol HB-9B

Miniwr

Rhwbiwr

Conté neu siarcol

Clytiau dwylo

Chwyddwydr

Llyfrau lluniadu A4 neu A3

Llyfrau nodiadau, papur grid a chlipfyrddau

Potiau dŵr a deunyddiau peintio

Casgliad o ffotograffau, nodiadau a lluniadau o'r sesiwn gynharach (Rhan 1).

Mae'n bosibl cynllunio'r prosiect hwn i integreiddio gyda phynciau eraill fel Cymraeg, Saesneg, Hanes a Drama. Cynlluniwyd pob rhan hefyd i fod yn wers unigol os nad ydych am ddilyn y rhannau eraill. *(Gweler tudalen 2 am y cysylltiadau cwricwlaidd)*

The Tree Register · Ancient Tree Forum · Heritage Lottery Funded · Esmée Fairbairn Foundation · Scottish Natural Heritage · WCVA

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llungopïo a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk

COED CADW WOODLAND TRUST

3720/04/08

Yr Helfa Coed Hynafol

Celf a Dylunio CA3

Dylunio

COED HYNAFOL

UNED 4: TAFLEN ATHRAWON

Prif Gysylltiadau Cwricwlwaidd

Sgiliau

Deall

1. *defnyddio'u gwybodaeth am waith artistiaid, crefftwyr a dylunwyr eraill i gyfoethogi a llywio'u gwaith eu hunain trwy ddadansoddi/cymharu/gwerthuso*
2. *archwilio arferion gweithio amrywiol artistiaid, crefftwyr a dylunwyr o wahanol gyfnodau/lleoedd/diwylliannau gan ystyried eu diben a'u bwriadau*

Ymchwilio

1. *datblygu sgiliau penodol ar gyfer cofnodi ar sail arsylwi/profiad/y cof/y dychymyg a datblygu sgiliau penodol ar gyfer ymchwilio i'r amgylchedd naturiol a'r amgylchedd gwneud gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau.*
2. *archwilio a threfnu ystod o ddeunydd cyfeirio/ystod o adnoddau er mwyn sefydlu a datblygu syniadau neu themâu*
3. *cadw llyfr braslunio i fynd i'r afael â gwahanol agweddau ar ymchwilio er mwyn datblygu syniadau a theimladau/archwilio themâu/ archwilio defnyddiau a phrosesau ac arbrofi â nhw/cychwyn a chefnogi gwaith annibynnol*

Gwneud

1. *archwilio, arbrofi a chymhwyso elfennau iaith weledol, cyffyrddol a synhwyraidd celf, crefft a dylunio*
2. *dylunio a gwneud delweddau ac arteffactau gan ddefnyddio amrywiaeth o ddefnyddiau, prosesau a syniadau*
3. *cael profiad o ystod eang o dechnegau a chyfryngau i wireddu eu syniadau/mynegi eu teimladau/cyfleu ystyr.*

Ystod

Deall

Cael eu hysgogi a'u hysbrydoli gan artistiaid, crefftwyr a dylunwyr eraill/gwaith eu cyfoedion/dulliau a phrosesau/ delweddau ac arteffactau o amrywiaeth o ddiwylliannau a chyd-destunau hanesyddol a chyfoes.

Datblygu eu dealltwriaeth trwy gyfrwng llyfrau/fideos/adnoddau digidol/y rhyngrwyd.

Ymchwilio

Ymchwilio i briodweddau defnyddiau a phrosesau/gwrthrychau ac amgylcheddau naturiol/gwrthrychau ac amgylcheddau gwneud.
Defnyddio yn eu gwaith eu hunain ganfyddiadau perthnasol a gasglwyd o lyfrau/fideos/ adnoddau digidol/y rhyngrwyd/ eu harbrofion ymarferol a'u cofnodion eu hunain ac o amrywiaeth o gyd-destunau gan gynnwys enghreifftiau lleol a Chymreig.

Gwneud

Cael cyfleoedd i weithio fel unigolion ac aelodau o grŵp a gweithio yn yr awyr agored, gan ystyried y peryglon a'r risgiau yn eu gweithgareddau celf a dylunio. Gallu dilyn cyfarwyddiadau i leihau'r risgiau iddynt hwy eu hunain ac eraill.

Cysylltiadau cwricwlaidd eraill

Datblygu cyfathrebu: Llafaredd, Darllen, Ysgrifennu a Chyfathrebu ehangach
Datblygu TGCh
ADCDF

The Tree Register · ancient tree forum · Heritage Lottery Funded · Esmée Fairbairn Foundation · Scottish Natural Heritage · WCVA

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llungopïo a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk

COED CADW WOODLAND TRUST

3720/04/08

Yr Helfa Coed Hynafol

Celf a Dylunio CA3

Dylunio
COED HYNAFOL

UNED 4: TAFLEN ATHRAWON

Rhan 1

Amcanion dysgu

Astudio a dehongli data o wefan Yr Helfa Coed Hynafol a defnyddio hwn fel adnodd yn y wers hon.

Ymchwilio i gyfryngau eraill fel cylchgronau a phapurau newydd i astudio dulliau o ddarlunio ac ysgrifennu.

Astudio'r defnydd o eiriau a theip i ddal sylw neu i gyfleu gwybodaeth.

Dysgu defnyddio sgriptiau, technegau cynllunio a chynhyrchu a gweithio mewn tîm i gyflawni amcan cyffredin.

Dysgu lluniadu o arsylwi gan ddefnyddio amrywiaeth o ddeunyddiau a thechnegau i gofnodi manylion mân.

Dysgu gwerthfawrogi pwysigrwydd ein coed a'n bywyd gwyllt a dysgu am fioamrywiaeth ac ecoleg ein cefn gwlad.

Strwythur y Wers

Trafodwch gyda'r disgyblion rôl gwefannau Coed Cadw a'r Helfa Coed Hynafol. Beth yw eu pwrpas, a beth maent yn gobeithio'i gyflawni? Beth yw buddion ac amcanion prosiect ysgol sy'n cyd-weithio â'r mudiadau hyn?

Trafodwch Goed Hynafol – eu hoedran a'u hanes – eu maint a'u graddfa. Siaradwch am yr amgylchedd, a'r pryderon sydd gennym ynghylch cynhesu byd-eang. Beth allwn ni ei wneud fel unigolion ac fel gwlad i warchod ein hamgylchedd rhag materion byd-eang fel llygredd a newid hinsawdd, ac i arbed a datblygu'r hyn sydd gennym heddiw?

Trafodwch brif amcanion y wers hon.
Cynhyrchu un neu fwy o'r canlynol:

1. Clawr ac erthygl cylchgrawn ar goed hynafol yn eich ardal.
2. Poster i hysbysebu'r goeden hon neu'r coed hyn.
3. Rhaglen ddogfen ar fideo sy'n adrodd stori coeden hynafol yn eich ardal i'w defnyddio ar wefan.
4. Tudalen we i gynnwys yr holl bethau uchod.

Offer angenrheidiol ar gyfer gweithgareddau awyr agored:

Offer mesur: 1 x tâp mesur deunydd neu hyblyg (6-10m), ffyn mesur

Pensiliau o galedwch gwahanol HB-9B

Miniwr

Rhwbiwr

Conté neu siarcol

Clytiau dwylo

Llyfrau lluniadu A4 neu A3

Llyfrau nodiadau, papur grid a chlipfyrddau

Chwyddwydr

Dillad ac esgidiau awyr agored addas

Camerâu

Camera fideo a thripod

Recordydd sain ar gyfer cyfweliadau

Casgliad o fagiau i ddail, brigau a hadau (Dylech sicrhau nad ydych yn niweidio unrhyw goed)

Trafodwch sut y gall y prosiectau uchod annog a hysbysu'r cyhoedd i fod yn ymwybodol o goed hynafol a'u hannog i gymryd diddordeb yn y gwaith o'u deall a'u gwarchod.

Edrychwch ar gylchgronau ac erthyglau ac os yn bosibl, astudiwch rai rhaglenni dogfen natur o flaen llaw fel bo modd eu trafod a'u dadansoddi cyn dechrau ar y gwaith. Gellir defnyddio'r prosiect hwn mewn sawl ffordd: fel dyluniadau ar gyfer posteri, erthyglau ar gyfer cylchgronau neu stori ar gyfer gwefan yr ysgol.

Mae'r amcanion yn cynnwys cofnodi a storio gwybodaeth am goeden a ddewiswyd gan y disgyblion. Gofynnwch iddynt gofnodi a dogfennu'r wybodaeth hon gan ddefnyddio llyfrau

The Tree Register · Ancient Tree Forum · Heritage Lottery Funded · Esmée Fairbairn Foundation · Scottish Natural Heritage · WCVA

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llungopïo a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk

COED CADW WOODLAND TRUST

3720/04/08

Yr Helfa Coed Hynafol

Celf a Dylunio CA3

Dylunio
COED HYNAFOL

UNED 4: TAFLEN ATHRAWON

braslunio, camerâu a recordiadau fideo a sain (y ddau olaf ar gyfer y wefan). Paratowch sgript ffilmio er mwyn sicrhau bod digon o wybodaeth gennych i barhau a chwblhau rhanau olaf y prosiect.

Rhan 1 – Gweithgareddau

I ran gyntaf y wers, bydd yn rhaid i chi drefnu ymweliad maes â safle coeden hynafol. Cyn yr ymweliad hwn, sicrhewch fod disgyblion wedi edrych ar wefan Yr Helfa Coed Hynafol ac wedi lawrlwytho taflenni defnyddiol fel sut i adnabod rhywogaethau coed a sut i fesur coed. Sicrhewch fod eich disgyblion yn gyfarwydd â chysyniad y safle a'r côd cefn gwlad. Sicrhewch hefyd bod gennych yr adnoddau ar gyfer cofnodi a mesur eich coeden.

Mae'r holl wybodaeth sy'n angenrheidiol ar gael ar wefan Yr Helfa Coed Hynafol, a cheir rhestr o'r cyhoeddiadau sydd ar gael yn: **www.woodlandtrust.org.uk/ancient-tree-forum/atfresources/resourcesbooks.htm**
Mae taflenni adnabod dail a brigau i'w cael yn: **www.naturedetectives.org.uk/cymraeg**

Rhan 1 – Gweithgareddau Rhagarweiniol

Paratowch at ran awyr agored y wers hon o flaen llaw. Gall y disgyblion weithio fel tîm. Bydd rhai yn lluniadu, eraill yn cymryd mesuriadau a nodiadau am y goeden, a bydd grŵp arall yn tynnu ffotograffau ac yn recordio rhai clipiau fideo a sain. Bydd y darnau hyn o waith yn cael eu golygu nes ymlaen a'u rhoi at ei gilydd i ffurfio stori am y goeden, ei chynefin a'i hanes ynghyd â'r gwaith y mae'r disgyblion yn anelu at ei gwblhau.

Gyda'r canlyniad terfynol mewn golwg, mae'n rhaid i chi benderfynu pwy fydd yn gwneud beth, a beth ydych chi'n gobeithio ei gyflawni. Mae hwn yn brosiect hyblyg iawn a bwriad y syniadau a roddir fan hyn yw tanio dychymyg a chaniatáu'r rhyddid i'w ddatblygu yn arddull y disgyblion eu hunain.

Astudio a chofnodi'r goeden a ddewiswyd yn ei safle

Nawr, trafodwch gyda'r disgyblion y pwyntiau canlynol wrth archwilio'r goeden a ddewiswyd (gan gymryd amser i archwilio'n ofalus o amgylch y goeden gyfan). Sicrhewch eich bod yn parchu'r tir neu'r eiddo yr ydych arno, a pheidio â difrodi unrhyw rai o'r coed a'r planhigion o'u cwmpas.

Ym mha fath o gyflwr mae'r goeden?

(Byddai'n ddefnyddiol astudio'r adran ar fesur coed hynafol yn Uned 3, Celf a Dylunio CA3, Mesur a Choed Hynafol – cewch yno wybodaeth a chanllawiau ar fesur coed hynafol a fydd yn eich helpu i lunio eich stori a'ch ffeithiau).

A oes gan ffermwr, siopwr neu dirfeddiannwr ffeithiau neu storïau diddorol am y goeden? A fyddai'n fodlon siarad â chi a chael ei gyfweld?

Naill ai ysgrifennwch nodiadau i'ch helpu i lunio sgript trosleisio wedyn, neu os yn bosibl, recordiwch hwn gan ddefnyddio tâp neu gamera fideo.

Ceisiwch gyfweld trigolion hŷn lleol sy'n gallu cofio pa fath o olwg oedd ar y goeden pan oeddynt yn blant, a beth oedd yn digwydd yr adeg honno, e.e. mae diwedd yr Ail Ryfel Byd, dogni, gwahanol fathau o gludiant a phensaernïaeth yn straeon diddorol i'w darlunio neu ysgrifennu amdanynt neu hyd yn oed recordio.

Gellir gofyn i un grŵp luniadu neu baentio gwahanol onglau o'r goeden. Gall grŵp arall dynnu lluniau llonydd o ddail a changhennau, a saethiadau hir o'r goeden gan chwilio am onglau diddorol a dramatig. Cofiwch gynnwys pobl (gyda'u caniatâd) lle bynnag bo hynny'n bosibl. Yn sicr, byddai tynnu lluniau o rai o'r disgyblion yn gweithio yn werth chweil, gan o bosibl eu dangos yn y cynnyrch gweledol yn ddiweddarach.

The Tree Register · Ancient Tree Forum · Heritage Lottery Funded · Esmée Fairbairn Foundation · Scottish Natural Heritage · WCVA

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llungopïo a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk

COED CADW WOODLAND TRUST

3720/04/08

Yr Helfa Coed Hynafol

Celf a Dylunio CA3

Dylunio
COED HYNAFOL

UNED 4: TAFLEN ATHRAWON

Nodiadau ar sut i dynnu lluniau ffotograffig a gwneud fideo o'r goeden

Trafodwch gyda'r disgyblion

Dewiswch fannau arsylwi addas i gael golygfeydd diddorol neu ddramatig o'r goeden. Byddai'n bosibl edrych i fyny boncyff coeden i'r canghennau uwchben, neu gael golygon lletach gyda'r dirwedd o gwmpas.

Tynnwch saethiadau gwahanol i ddangos delweddau agos o ddail, blagur a hadau, saethiadau hir yn dangos beth sydd o amgylch, a saethiadau dramatig ar onglau serth. Ceisiwch saethu drwy ddail i gael blaendiroedd sydd allan o ffocws. Ceisiwch hefyd gynnwys lluniau o'ch cyd-ddisgyblion yn gweithio a chofnodi gwybodaeth.

Os oes gennych gamera fideo, gallwch ailadrodd yr ymarfer hwn gan sicrhau eich bod yn cadw'r camera yn sefydlog wrth symud o amgylch gwrthrychau'n araf. Mae tripod yn gymorth mawr wrth wneud fideo, gan bod symudiadau camera sigledig yn amharu ar yr effaith. Sicrhewch fod gennych ddigon o ddarnau ffilm o onglau amrywiol i'ch galluogi i olygu eich deunydd yn ddiweddarach.

Nod yr ymarfer hwn yw dogfennu a chofnodi cymaint o wybodaeth ag sy'n bosibl i'w defnyddio yn rhan nesaf y wers hon.

Mae'n bosibl y byddwch yn penderfynu bod rhywun yn eich grŵp yn cymryd rhan y cyflwynydd ac yn disgrifio'r digwyddiadau yn y fan a'r lle - mae hyn yn ffordd o gipio naturioldeb yr eiliad a hefyd yn ganllaw i'r prosiect. Dyma pam bod cynllunio o flaen llaw yn bwysig - fel eich bod yn gyfarwydd â'r testun ac yn gallu esbonio'n glir beth sy'n digwydd. Os ydych yn gwneud camgymeriad wrth recordio, yna dechreuwch eto o bwynt addas (gallwch olygu'r ffilm yn ddiweddarach). Bydd yr adroddiad hwn yn angori'r darnau gwybodaeth anffurfiol ac yn cynnal y stori.

Os yn bosibl, paratowch sgript ffilmio o flaen llaw – os nad ydych wedi gwneud hynny, edrychwch ar y safle a cheisiwch amlinellu ar ffurf nodiadau pa saethiadau, onglau a chynnwys a fydd yn ddefnyddiol i'w cynnwys yn y drafft terfynol. Cofiwch ei bod yn well i chi saethu gormod na chanfod eich bod yn brin o ddeunydd i ddweud eich stori yn ddiweddarach. Mae'n syniad da bob amser i gymryd rhai golygfeydd cyffredinol i'w defnyddio fel saethiadau llenwi-mewn, rhag ofn bod rhywun wedi siglo'r camera'n ddamweiniol wrth ffilmio.

Gwneud brasluniau ac arsylwadau fel lluniadau

Dylai'r grŵp braslunio gydweithio a phenderfynu pwy sy'n gwneud beth. Gall rhai aelodau luniadu manylion mân ar flagur a dail, ac eraill weithio ar onglau lletach yn dangos y goeden gyfan a'r hyn sydd o'i chwmpas. Gofynnwch i'r disgyblion ddefnyddio siarcol, pen ac inc neu bensiliau a golch. Gofynnwch iddynt geisio meddwl pa deimlad y mae'r goeden yn ei gyfleu ynddynt ac wedyn portreadu hyn yn eu gwaith. Mae'n bosibl sganio'r gwaith yma yn ddiweddarach a'i ddefnyddio fel lluniau llonydd yn y fideo neu fel darlun ar bosteri neu mewn erthyglau. Er nad yw hwn yn animeiddiad, mae symud yn araf ar hyd lluniad yn gallu gwneud dilyniant diddorol.

Cofiwch eu bod yn gweithio ar erthygl ddogfen, felly ni fydd yr un darn o waith yn cael ei weld ar ei ben ei hun; yn hytrach, dyma gymysgedd o eiriau, synau a delweddau gweledol sy'n cydweithio i ddweud stori.

Erbyn hyn, bydd gan eich disgyblion amrywiaeth o luniadau ac arsylwadau agos ynghyd â chyfres o ffotograffau, clipiau fideo a sain a nodiadau am eu coeden.

The Tree Register · Ancient Tree Forum · Heritage Lottery Funded · Esmée Fairbairn Foundation · Scottish Natural Heritage · WCVA

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llungopïo a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk

COED CADW WOODLAND TRUST

3720/04/08

Yr Helfa Coed Hynafol

Celf a Dylunio CA3

Dylunio
COED HYNAFOL

UNED 4: TAFLEN ATHRAWON

Rhan 2 - Amcanion Dysgu

Dylai'r disgyblion drosglwyddo'r wybodaeth a gofnodwyd yn y sesiwn awyr agored i un neu fwy o'r prosiectau a ddewiswyd.

- Cynllunio;
  - erthygl i gylchgrawn
  - poster neu glip fideo i'w defnyddio ar wefan yr ysgol
  - erthygl i bapur newydd lleol
- Dysgu sgiliau cyfweld.
- Archwilio a dadansoddi gwrthrychau organig yn fanwl a chofnodi'r wybodaeth hon.
- Dewis a defnyddio'r cyfryngau mwyaf addas i'r prosiectau.
- Defnyddio gwybodaeth o bynciau eraill fel Cymraeg, Saesneg, Gwyddoniaeth, Mathemateg a Hanes i gefnogi'r dysgu.
- Cydweithio â'i gilydd fel tîm i gynhyrchu gwaith celf terfynol.
- Trafod gwaith ei gilydd mewn modd teg a beirniadol i wella ar y canlyniadau.

Rhan 2 – Gweithgaredd

Rhennir y darn hwn yn bedwar opsiwn. Mae'n bosibl cynnal un ohonynt, neu bob un ohonynt; gall yr athro/athrawes benderfynu.

1. Clawr ac erthygl cylchgrawn ar goed hynafol yn eich ardal.
2. Poster i hysbysebu'r goeden hon neu'r coed hyn.
3. Rhaglen ddogfen ar fideo sy'n adrodd stori coeden hynafol yn eich ardal i'w defnyddio ar wefan.
4. Tudalen we i gynnwys yr holl bethau uchod.

Offer angenrheidiol i weithgareddau dan do:

Mynediad at gyfrifiaduron gyda meddalwedd prosesu geiriau, dylunio a thrin ffotograffau

Offer sganio ac argraffyddion

Meddalwedd golygu fideo

Meddalwedd cyhoeddi'r we

Amrywiaeth o gylchgronau, darluniadau a llyfrau natur fel deunydd cyfeirio

Deunyddiau lluniadu, nodiadau a gwaith a gynhyrchwyd yn ystod y gweithgareddau awyr agored fel uchod

Deunyddiau peintio

The Tree Register · Ancient Tree Forum · Heritage Lottery Funded · Esmée Fairbairn Foundation · Scottish Natural Heritage · WCVA

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llungopïo a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
www.woodlandtrust.org.uk **www.AncientTreeHunt.org.uk**

COED CADW WOODLAND TRUST

3720/04/08

Yr Helfa Coed Hynafol

Celf a Dylunio CA3

Dylunio
COED HYNAFOL

UNED 4: TAFLEN ATHRAWON

Rhan 2.1

Dylunio clawr ac erthygl i gylchgrawn ar goed hynafol yn eich ardal

Rhan 2.1 – Gweithgaredd (Dull)

Gofynnwch i'r disgyblion edrych ar y testun a phenderfynu pa ffeithiau yw'r rhai pwysig i'w rhoi mewn erthygl i greu stori ddiddorol.

Gan ddefnyddio'r arsylwadau, nodiadau, lluniadau a ffotograffau a wnaethpwyd ar safle'r goeden hynafol, gofynnwch i'r disgyblion lunio rhai syniadau ar gyfer clawr y cylchgrawn a'r erthygl.

Maent wedi astudio coeden leol ac mae'n rhaid iddynt geisio gwneud eraill yn ymwybodol o'i phresenoldeb a'i phwysigrwydd. A oes stori am y goeden? A oes unrhyw ffeithiau hanesyddol i'w dysgu? Efallai ei bod yn tyfu ar hen ffin neu lwybr? Ceisiwch edrych ar hen fapiau o'ch ardal i gymharu'r ffyrdd a'r caeau rai canrifoedd yn ôl â rhai heddiw.

Mae cylchgronau yn dueddol o ganolbwyntio ar sectorau penodol fel ceir, gerddi, bobl neu hobïau. Maent yn dueddol o ddarlunio storïau am bynciau a thestunau diddorol. Dychmygwch sut y byddai eich coeden yn ffitio i mewn i hyn. Beth fyddai'r stori? Sut allwch chi ddarlunio'r stori mewn ffordd ddiddorol?

Edrychwch ar rai o'r cylchgronau sydd gennych fel enghreifftiau, ac astudiwch y gosodiadau a'r syniadau sydd ynddynt.

Gofynnwch i'r disgyblion edrych ar arddulliau'r testun a'r defnydd o luniau a cheisio deall y technegau y maent yn eu defnyddio i werthu eu cylchgronau.

Adnoddau rhan 2.1

Nodiadau, ffotograffau a brasluniau o'r sesiwn awyr agored

Rhan 1

Paentiau a phapur

Pensiliau a pheniau

Ffyn mesur

Cylchgronau i gyfeirio atynt

Byddant eisoes wedi paratoi nodiadau yn ystod yr ymweliad blaenorol â'r goeden. Yr her gyntaf yw meddwl am stori ac edrych ar hen fapiau. Byddant, o bosibl, wedi siarad â'r tirfeddianwyr neu wedi gofyn i'r cyhoedd. Unwaith y mae digon o ffeithiau ganddynt, gallant ddechrau ysgrifennu eu geiriau – neu gofynnwch iddynt roi cyflwyniad a'r rhesymau pam fod arnynt eisiau ysgrifennu am y goeden, cyn mynd ati i greu'r stori. Gellir defnyddio darnau byr o wybodaeth fel pytiau mewn blychau bach neu fel penawdau i'r lluniau.

Yr her nesaf yw ymdrin â'r delweddau. Yma, dylent edrych am amrywiaeth. Peidiwch â bod ofn cymysgu peintio a ffotograffeg â'i gilydd. Edrychwch am ddelweddau sy'n darlunio'r geiriau a ysgrifennwyd. Weithiau, mae'r llun yn dod yn gyntaf a gall y geiriau fod yn ddisgrifiad o'r ddelwedd. Er enghraifft, efallai y bydd arnynt eisiau ysgrifennu am hadau'r goeden a sut maent yn cael eu dosbarthu (gan adar a gwiwerod neu'r gwynt), gan ddefnyddio ffotograff da i ddarlunio hyn.

Os ydych yn sganio'r lluniadau, yna ceisiwch gymryd darnau bach a'u helaethu i gael gwead y paent neu siarcol. Gallant edrych yn ddyluniadol iawn os ydynt wedi'u helaethu'n sylweddol. Ychwanegwch benawdau a chredydau a chefnogwch eu stori ddiddorol gyda delweddau cryf, da.

3720/04/08

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llungopïo a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk

COED CADW WOODLAND TRUST

Yr Helfa Coed Hynafol

Celf a Dylunio CA3

Dylunio

COED HYNAFOL

Wrth weithio gyda'r testun, gosodwch led y colofnau i'w gwneud yn haws i ddarllen y stori.

Gall disgyblion fod yn fwy creadigol gyda thestun mawr a siapiau testun ar glawr y cylchgrawn neu fel cyflwyniad i adrannau. Astudiwch sut mae cylchgronau eraill yn defnyddio testun a lluniau gyda'i gilydd; gellir dysgu llawer wrth astudio gwaith dylunwyr eraill. Edrychwch ar fanylion fel lled y colofnau, gofod rhwng y testun, maint a lliw'r testun; blychau lluniau a gosodiadau a thechnegau graffigol eraill.

Ceisiwch ddefnyddio un neu ddau ffont yn unig sy'n hawdd i'w darllen. Mae Times ac Arial yn cael eu defnyddio'n aml, ac o bosibl dyma'r ddau ffont mwyaf poblogaidd er dibenion cyffredinol. Mae Times yn ffont serif ac Arial yn ffont sans serif (sy'n golygu heb serif; y serif yw'r ymylon cyrliog a welir ar ddiwedd llythrennau). Mae rhai o'r ffontiau eraill mwy anarferol yn dueddol o gael eu defnyddio fel penawdau neu effeithiau graffig, ac ni fyddent yn cael eu defnyddio lle mae yna lawer o destun i'w ddarllen, gan y byddai'n anodd ac araf i'w ddarllen yn gyflym.

Y clawr yw'r dudalen sy'n gwerthu'r cylchgrawn – dyma beth fyddwch chi'n sylwi arno ymhlith yr holl gylchgronau gwahanol fydd ar silffoedd y siop. Weithiau, allwch chi ond gweld hanner uchaf y dudalen, felly mae'n rhaid i'r hanner uchaf fod yn drawiadol.

Dylech annog y disgyblion i greu teitl byr a bachog, ac yna edrych ar ffurfdeipiau a lliwiau. Mae cyfle iddynt fod yn greadigol fan hyn, felly peidiwch â bod ofn gadael iddynt arbrofi gyda llawer o syniadau cyn penderfynu ar ddyluniad i'w defnyddio. Mae'n bosibl gwneud hyn mewn grŵp, lle mae syniadau, enwau ac awgrymiadau yn cael eu taflu i mewn i'r pair; mae hyn hefyd yn hybu meddwl ochrol. Bydd timau o bobl yn aml yn cydweithio mewn asiantaethau hysbysebu a grwpiau dylunio, i feddwl am syniadau a chysyniadau da, yn hytrach na rhoi'r gwaith yn nwylo un person.

Ychwanegwch ddelweddau eraill a thestun i'r clawr i hybu cynnwys yr erthygl tu mewn, a chyn hir, bydd ganddynt glawr yn barod i'w argraffu.

Nawr, mae'n rhaid cyfrifo sawl tudalen sy'n angenrheidiol er mwyn paratoi ar gyfer dylunio cynnwys yr erthygl. Efallai y gellir defnyddio llun mawr fel cefndir i osodiad tudalen ddwbl, gyda lluniau llai a'r testun yn ymestyn dros y ddwy dudalen. Arbrofwch gyda gosodiadau gwahanol gan sicrhau ei bod yn dal yn bosibl darllen yr erthygl yn rhwydd. Ychwanegwch benawdau at y lluniau i gwblhau'r gosodiad.

Yn olaf, argraffwch y tudalennau a'r clawr a'u rhwymo at ei gilydd. Wedyn bydd ganddynt wedyn erthygl gylchgrawn orffenedig

3720/04/08

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llungopïo a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk

COED CADW WOODLAND TRUST

Yr Helfa Coed Hynafol

Celf a Dylunio CA3

Dylunio
COED HYNAFOL

UNED 4: TAFLEN ATHRAWON

Rhan 2.2 – Dylunio poster i hysbysebu'r goeden hon neu'r coed hyn

Resources Part 2.2

Notes, photographs and sketches from outdoor session Part 1

Paints and papers

Pencils and pens

Rulers

Gweithgaredd

Trafodwch gyda'r disgyblion bwysigrwydd deall yr hyn yr ydych am ei gyflawni wrth feddwl am ddyluniad poster.

Mae poster yn bwyntydd gweledol i dynnu sylw person at ddigwyddiad neu achlysur.

- Beth yw'r digwyddiadau, storïau a syniadau y gallwch eu defnyddio i ddarlunio'r rhain?
- Beth yw'r dulliau gorau o wneud hyn a sut gallwch chi wneud poster effeithiol? O gofio hyn, mae'n rhaid cynllunio'r darluniad a'r testun yn ofalus cyn dechrau ar y gwaith.
- Defnyddiwch yr arsylwadau, nodiadau, lluniadau a ffotograffau a wnaed ar safle'r goeden hynafol i ddechrau meddwl am rai syniadau ar gyfer y poster.
- Astudiwch a chymharwch waith dylunwyr ac artistiaid eraill sydd wedi dylunio posteri (fel Toulouse Lautrec, Picasso, Matisse, Degas a dylunwyr graffeg modern).
- Beth oedd yr artistiaid hyn yn ceisio'i ddweud gyda'u dyluniadau?
- Sut defnyddiwyd y posteri?
- Mae rhai enghreifftiau yn cynnwys hysbysebu, digwyddiadau, arddangosfeydd, cynhyrchion neu weithfeydd celf. Ble byddwch chi'n gweld posteri yn cael eu harddangos? Ar drenau, arosfannau bysiau, hysbysfyrddau poster ac adeiladau cyhoeddus fel llyfrgelloedd (sef safleoedd y gall y cyhoedd ymweld â nhw fel rheol).
- Pa dechnegau a ddefnyddir i greu posteri deniadol sy'n tynnu sylw?
- Y defnydd o ddelweddau deinameg, testun clir, geiriau neu ymadroddion, logos ac arddulliau graffeg, i nodi rhai yn unig. Gall sganio rhan o luniad a'i wneud llawer yn fwy gynhyrchu canlyniadau trawiadol iawn. Er enghraifft, dychmygwch luniad o ddail wedi'i helaethu a'i wneud i ffitio poster mawr. Bydd gwead y pensil neu siarcol wedi'i chwyddo a'i helaethu, a bydd hyn yn pwysleisio gwead y siarcol.
- Pa elfennau y gellir eu defnyddio i wneud poster o goeden hynafol yn ddeniadol?
- Rhai syniadau – delweddau graffig o goed, onglau cryf, tirweddau hardd, gweadau, delweddau agos, ac effeithiau goleuo diddorol.
- Montage o ddelweddau gwahanol ar raddfeydd gwahanol, fel derwen, mes a dail. (Enghraifft: Dangos y fesen wedi'i chwyddo gyda'r goeden yn tyfu tu fewn iddi).
- Defnyddio dyluniadau testun a logo, gyda lliwiau a siapiau sy'n cydweddu i weithio gyda'r delweddau a ddewiswyd.
- Ceisio defnyddio llythrennau mawr all gael eu defnyddio fel siapiau – er enghraifft, mae'n bosibl ymestyn y gair "dail" ar draws y poster gyda montage o ddail i weld trwyddo neu hyd yn oed asio'r llythrennau.
- Trwy ddefnyddio siapiau llythrennau, a delweddau (gan gynnwys ffotograffau, lluniadau a phaentiadau), gellir cynhyrchu set o bosteri i'w harddangos yn y dosbarth gan ddefnyddio thema o deipograffeg neu liw. Neu gallech ystyried dylunio thema ar goeden hynafol fel y tymhorau, neu fanylion fel rhisgl, blagur, dail, gwreiddiau a chreaduriaid sy'n byw yn y goeden.

Cofiwch fod poster yn aml yn cael ei wneud i hysbysu a darlunio testun arbennig. Mae'n bosibl hefyd y bydd yn rhaid cynnwys gwybodaeth bwysig fel ble, pryd a faint o'r gloch. Efallai hefyd y bydd yn rhaid cynnwys manylion fel rhif ffôn, cyfeiriad a gwefan.

Gyda'r wybodaeth hon i'w cynorthwyo, dylai'r disgyblion fod yn gallu datblygu poster neu gyfres o bosteri fel eu prosiect gorffenedig

The Tree Register · Ancient Tree Forum · Heritage Lottery Funded · Esmée Fairbairn Foundation · Scottish Natural Heritage · WCVA

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llungopïo a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk

COED CADW WOODLAND TRUST

3720/04/08

Yr Helfa Coed Hynafol

Celf a Dylunio CA3

Dylunio

COED HYNAFOL

UNED 4: TAFLEN ATHRAWON

Rhan 2.3 – Dylunio fideo dogfen i adrodd stori coeden hynafol yn eich ardal i'w ddefnyddio ar wefan

Adnoddau Rhan 2.3

Nodiadau, ffotograffau a brasluniau o'r sesiwn awyr agored (Rhan 1)

Camera fideo a thapiau

Cyfrifiadur a meddalwedd golygu

Sgriptiau a nodiadau

Clipiau sain a cherddoriaeth gefndirol

Gweithgaredd

Cynhyrchwch fideo dogfen i adrodd stori coeden hynafol yn eich ardal i'w ddefnyddio ar wefan.

Byddai modd cysylltu'r rhan hon o'r wers gyda gwers Gymraeg ar gynhyrchu fideo wrth ysgrifennu'r sgript, a gyda'r adran Gerdd wrth recordio'r gerddoriaeth gefndirol ar drac sain.

Mae'r disgyblion eisoes wedi saethu fideo yn ystod y sesiwn awyr agored felly dylent nawr fod â detholiad da o dapiau ar gyfer y gwaith hwn. Gallant hefyd ddefnyddio'r lluniadau a'r ffotograffau llonydd a gymrwyd yr un pryd, trwy eu sganio a pharatoi lluniau llonydd digidol i'w mewnbynnu i'r rhaglen olygu.

Mae ymchwil a chynllunio gofalus yn hanfodol wrth gynhyrchu fideo. Mae'n rhaid i'r disgyblion gyd-weithio i sicrhau eu bod yn cyflawni pob agwedd ar y cynhyrchiad. Gellir penodi gwahanol ddisgyblion i gyflawni rolau gwahanol fel golygu, gofalu am y sain, effeithiau sain, ysgrifennu sgript, dylunio a graffeg weledol, ffotograffiaeth a gwaith camera ychwanegol

Y gwaith cyntaf yw logio'r clipiau fel bod gennych restr o'r deunydd mwyaf addas. Unwaith y mae gan y disgyblion syniad o'r deunydd sydd ar gael, yna gallent ddechrau gweld beth mwy sy'n angenrheidiol i wella'r prosiect.

Bydd yn help i chi nodi'r holl glipiau a hyd bob un, a chreu bwrdd stori fel y gall y disgyblion gynllunio'r sgript. Cyfrifwch hyd bob clip, a gweithiwch allan faint o amser sy'n angenrheidiol i ychwanegu cerddoriaeth a throsleisiad. Trwy gynllunio hyn, gallent weld a oes arnynt angen cynnwys mwy o ddelweddau gweledol.

Mae'n rhaid i'r disgyblion wedyn greu dilyniant a stori. Os nad oes gan y clipiau ddigon o resymeg a gwybodaeth, gallant recordio llais i ychwanegu at y trac sain. I wneud hyn, dylent ailchwarae'r darnau a olygwyd ac amseru'r dilyniannau fel y disgrifiwyd yn y paragraff blaenorol, ac yna sgriptio'r troslais. Wedyn, gellir darllen a recordio'r llais mewn ystafell dawel gan ddefnyddio meicroffon da a recordydd. Ychwanegwch drac sain ychwanegol i'r rhaglen olygu ac ychwanegwch y llais hwn. Wedyn, o gymysgu hwn yn ofalus, gellir ei chwarae dros y delweddau gweledol gydag ychydig o sŵn naturiol o'r recordiadau gwreiddiol.

Efallai y bydd arnynt hefyd eisiau ychwanegu effeithiau sain a cherddoriaeth. Rhaid bod yn ymwybodol o reolau hawlfraint cerddoriaeth, felly gall hyn fod yn gyfle i gydweithio gyda'r adran gerdd a rhoi'r cyfle i'r disgyblion gyfansoddi eu trac sain eu hunain. Mae'n bosibl cael gafael ar synau eraill fel adar yn canu neu'r gwynt yn siffrwd yn y dail o'r we, neu drwy eu recordio eich hunan.

Bydd llyfr da ar gynhyrchu fideo yn ddefnyddiol iawn i ddysgu mwy am y grefft gymhleth o olygu, gan mai pwrpas strwythur y wers hon yw rhoi syniadau a datblygu cysyniadau yn unig.

Dylai'r fideo fod oddeutu 5-10 munud o hyd, gan y bydd yn rhaid i'r disgyblion gywasgu'r cynhyrchiad gorffenedig fel y bydd modd ei ddefnyddio ar wefan.

Mae hyn yn fwy o arbrawf, gan y bydd yn rhaid i chi gadw'r prosiect hwn yn weddol syml, yn enwedig os nad oes gennych feddalwedd da. Os yw'r disgyblion yn llwyddo i recordio'r stori a chynhyrchu fideo syml wedi'i olygu, a chyfleu'r neges wreiddiol, yna byddant wedi gwneud yn dda. Bydd arnoch angen meddalwedd cywasgu pwrpasol i gywasgu'r fideo ar gyfer eich gwefan. Mae fersiwn Pro Quicktime Apple yn costio tua £20 ac yn gallu gwneud y gwaith yn dda iawn.

The Tree Register · Ancient Tree Forum · Heritage Lottery Funded · Esmée Fairbairn Foundation · Scottish Natural Heritage · WCVA

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llungopïo a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk

COED CADW WOODLAND TRUST

3720/04/08

Yr Helfa Coed Hynafol

Celf a Dylunio CA3

Dylunio
COED HYNAFOL

UNED 4: TAFLEN ATHRAWON

Rhan 2.4 – Dylunio gwefan i hyrwyddo Coed Hynafol ac i ddarlunio'r cylchgrawn, y poster a'r clip fideo.

Adnoddau Rhan 2.4

Nodiadau, ffotograffau a brasluniau o'r sesiwn awyr agored (Rhan 1)

Cyfryngau digidol

Sganiwr

Cyfrifiadur a meddalwedd golygu

Clip fideo gorffenedig (wedi'i gywasgu ar gyfer y we)

Gweithgaredd

Dylai'r disgyblion ddefnyddio'r wybodaeth o Ran 1 a'r gwaith a gyflawnwyd ar brosiectau eraill yn Rhan 2 i greu cyfres o dudalennau i'r we.

Dylai'r disgyblion ddefnyddio rhaglen dylunio gwe i greu 3-6 thudalen i arddangos stori eich coeden ynghyd â delweddau'r poster, erthygl gylchgrawn a'r fideo.

Efallai y bydd arnynt eisiau ychwanegu'r tudalennau at wefan yr ysgol neu ddylunio'r tudalennau a'u defnyddio'n lleol fel arbrawf creu gwefan.

Os am roi'r tudalennau ar wefan yr ysgol, yna bydd y templât ar gyfer y llywio eisoes ar gael a byddant ond yn gorfod ychwanegu tudalennau cynnwys. Os ydynt yn dechrau o'r dechrau, yna bydd arnynt angen creu'r llywio hefyd. Rhaid tybio fod y wybodaeth ar wneud hyn eisoes ar gael. Felly'r dasg yw gosod y tudalennau fel bod y defnyddiwr yn gallu llywio'n rhwydd a'u deall yn hawdd.

Mae'n werth treulio amser yn astudio ystod o wefannau a gweld pa rai sy'n gweithio orau, ac sy'n rhoi'r neges yn glir, ond eto i gyd yn ddiddorol i edrych arnynt.

Fel rheol, pethau syml sydd orau, gan adael i'r stori a'r lluniau wneud y darnau mwyaf diddorol.

Mae gwefan yn debyg i ddylunio tudalen i gylchgrawn o ran gosodiad, ond mae'r llywio'n wahanol. Mae'n bosibl cael 20 dolen ar dudalen we i dudalennau eraill, a dyna pam y mae'n rhaid i'r llywio fod yn hawdd i'w ddilyn neu mae'n bosibl mynd ar goll ar wefan fawr.

Ceisiwch ddechrau gyda hafan gyda chyflwyniad i'r goeden hynafol a phoster bach gyda dolenni i dudalen arall ar y posteri. Gwnewch yr un peth i'r fideo a'r erthygl i gylchgrawn.

Ceisiwch ddefnyddio lluniadau, ffotograffau a thestun i wneud y tudalennau'n ddiddorol. Cofiwch fod yn rhaid gwneud y ffeiliau delwedd i'r maint y byddant yn cael eu defnyddio ar y dudalen, a bod yn rhaid sicrhau eu bod wedi'u cywasgu hefyd, fel rheol ar ffurf jpg neu gifs os am ystod gyfyngedig o liwiau.

Mae'n rhaid i'r dyluniad a'r gosodiad fod yn syml a deinameg. Bydd llawer o destun yn golygu na fydd pobl yn darllen y dudalen, gan fod arnynt eisiau clicio ar wefan er mwyn chwilio am rywbeth sydd o ddiddordeb iddynt. Felly cadwch y testun yn gryno a'r darluniadau'n fach. Mae'n bosibl wedyn dilyn dolenni i dudalennau eraill gyda mwy o wybodaeth os ydynt am ddarllen mwy.

Bydd y disgyblion bellach wedi cynhyrchu sawl tudalen, gan gynnwys yr hafan ar eu coeden hynafol, ac wedi cwblhau cam hwn y prosiect.

Sicrhewch eich bod wedi cael caniatâd rhieni os bydd lluniau/ffilm o ddisgyblion yn ymddangos ar wefan fyw.

Ystyriwch sut y gellid parhau gyda'r prosiect hwn:

Mae'n bosibl y gellid gweithio gydag adrannau eraill fel Drama, Cerddoriaeth, Gwyddoniaeth, Cymraeg, Saesneg a Hanes i ddatblygu themâu i ymestyn y syniadau hyn ymhellach.

Gallai recordiadau ddod yn ddrama gydag actorion, dylunio llwyfan a chyfeiriadau hanesyddol.

Byddai modd cynnal arddangosfa o'r posteri yn y llyfrgell leol.

Gellid cynnwys erthyglau i gylchgrawn yng nghylchgrawn ysgol neu eu hanfon i gylchgrawn masnachol neu i'r papur newydd lleol.

The Tree Register · Ancient Tree Forum · Heritage Lottery Funded · Esmée Fairbairn Foundation · Scottish Natural Heritage · WCVA

Cynlluniwyd y taflenni hyn i gael eu rhannu. Gellir felly eu llungopïo a'u rhannu. Coed Cadw yw prif elusen cadwraeth y Deyrnas Gyfunol sy'n gweithio i warchod treftadaeth ein coetir brodorol.
www.woodlandtrust.org.uk www.AncientTreeHunt.org.uk

COED CADW WOODLAND TRUST

3720/04/08